Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Min Y Ddol**
**Lôn Plas Kynmaston**
**Cefn Mawr**
**Wrexham**
**LL14 3PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith — Cyrraedd y Nod — The Corporate Standard — Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd — Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Min-y-Ddol, sy’n ysgol benodedig Gymraeg, yn mhentref Cefn Mawr, sydd ychydig filltiroedd o Wrecsam, a Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy’n ei chynnal.

Mae’r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Cefn Mawr, Rhosymedre a’r ardal gyfagos. Daw tua pedwar disgybl o ardal ehangach. Mae uned Dechrau’n Deg wedi ei lleoli ar safle’r ysgol ar gyfer plant mwyaf bregus yr ardal. Derbynnir plant i’r ysgol ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 42 o ddisgyblion sy’n cyfateb i ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, gyda 7 ohonynt yn blant oedran meithrin, sy’n mynychu yn y boreau yn unig.

Disgrifia’r ysgol yr ardal y daw mwyafrif y disgyblion ohoni fel un ddifreintiedig. Mae tua 37% o’r disgyblion â hawl i dderbyn prydau am ddim, sydd yn uwch na’r canran sirol ac yn sylweddol uwch na’r canran cenedlaethol.

Mae 7 (tua 16%) o ddisgyblion ar gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac yn dangos patrwm o gynnydd. Nid oes gan un o’r disgyblion ddatganiad o AAA arnynt.

Daw un disgybl o gartref lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw’r gweddill o gartrefi di-Gymraeg. Yn ôl yr ysgol, daw bron pob un o’r disgyblion i allu siarad Cymraeg yn rhugl erbyn dechrau blwyddyn 1. Nid oes un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006 ac mae’r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2001.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Min y Ddol yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £5,424 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wrecsam yw £8,569 a'r lleiafswm yw £2,903. Mae Ysgol Min y Ddol yn y pumed safle o'r 60 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn cyrraedd safonau da;
- mae medrau llafar a darllen y disgyblion yn dangos cynnydd cyson;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos gadarnhaol;
- mae ymddygiad ac ymrwymiad disgyblion i'w dysgu yn dda;
- mae'r mwyafrif o'r addysgu yn gyffredinol dda;
- at ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd ar gyfer y rhan fwyaf o'i disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyrraedd eu potensial llawn yn ystod gwersi ac yn eu llyfrau gwaith, ac nid yw safon y gwaith yn briodol i'w hoed a'u gallu;
- nid yw'r addysgu'n gyffredinol yn cymell mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 i fedru gweithio'n annibynnol yn eu gwersi;
- nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i greu darnau estynedig o waith mewn meysydd ar draws y cwricwlwm; ac
- nid yw'r ysgol wedi diwygio cynlluniau cyfnod allweddol 2 ar gyfer gofynion Cwricwlwm 2008 yn ddigonol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid oes cyfeiriad strategol eglur gan yr ysgol;
- nid yw'r ysgol wedi gwneud cynnydd ar argymhellion yr arolygiad blaenorol;
- nid yw'r ysgol yn dadansoddi data'n ddigon manwl fel y gall flaenoriaethu a gosod strategaethau i wella perfformiad disgyblion;
- nid oes cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol;
- nid yw'r ysgol yn rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau'r corff llywodraethol, staff yr ysgol, y plant a'r rhieni;
- nid yw cyfarfodydd arweinwyr, llywodraethwyr a staff yn cyfeirio'n ddigonol at safonau a deilliannau disgyblion; a
- nid yw dogfennaeth yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A2 sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n deall sut maent yn dysgu, a'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith;

A3 codi lefelau presenoldeb y disgyblion;

A4 sicrhau bod cynlluniau gwaith yr ysgol gyfan yn ateb gofynion yr ystod llawn o ddisgyblion, gan gynnwys datblygu eu medrau;

A5 gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol trwy ddileu'r diffygion a nodwyd;

A6 sefydlu proses drylwyr o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant sy'n cynnwys holl randdeiliaid yr ysgol, ac sy'n arwain at gynllun datblygu sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth;

A7 adeiladu systemau cyfathrebu clir ac amserol gyda rhieni; a

A8 sicrhau bod holl ddogfennaeth yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar y cyfan, mae disgyblion Ysgol Min y Ddol yn gwneud cynnydd priodol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn arbennig, o oed meithrin hyd at flwyddyn 2, yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn cyrraedd safonau da.

Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw mwyafrif o'r disgyblion yn medru gweithio'n annibynnol yn eu gwersi ac maent yn dibynnu'n ormodol ar arweiniad a chyfarwyddyd athrawon. O ganlyniad, prin iawn y mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth o'u dysgu eu hunain, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Nid yw llawer o'r disgyblion yn cyrraedd eu potensial llawn yn ystod gwersi ac yn eu llyfrau gwaith, ac nid yw safon y gwaith yn briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn unol â'u hoed, gallu a'u cefndir ieithyddol, gallant sgwrsio'n glir ac yn estynedig am eu gwaith ac yn anffurfiol mewn amrywiol sefyllfaoedd. Maent yn meddu ar eirfa gynyddol dda, sy'n datblygu'n briodol.

Mae medrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar hyd eu gyrfa ysgol ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn darllen yn gywir ac yn ddeallus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant drafod cynnwys llyfrau'n effeithiol a mynegi barn amdanynt a sôn am eu hoff awduron.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon derbyniol mewn Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn anhrefnus, ac nid ydynt yn creu digon o ddarnau estynedig o waith mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.

Beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol, mae'r disgyblion bron i gyd yn datblygu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu'n effeithiol erbyn iddynt gyrraedd blwyddyn 1.

Oherwydd bod y carfannau o ddisgyblion yn gyson fach ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon yn seiliedig ar y canlyniadau. Er enghraifft, yn 2011, roedd un disgybl cyfnod allweddol 1 yn cyfateb i 20% o'r garfan, ac yng nghyfnod allweddol dau, roedd un disgybl yn cyfateb i 50% o'r garfan.

Yn gyffredinol yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, ac eithrio ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, mae pob disgybl wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau disgwyliedig sef lefel 2 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, a lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn gyson yn 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim ac yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru.

Mae cyflawniad ar y lefelau uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn anwastad.

Nid oes unrhyw wahaniaeth o ran cyrhaeddiad bechgyn a merched, na rhwng disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim a'r rhai nad ydynt.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac, fel arfer, yn llwyddo i gyrraedd y targedau a osodir ar eu cyfer.

**Lles: Da**

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Maent yn gwrando'n dda yn y sesiynau dysgu ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau a chyfarwyddiadau.

Mae ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn dda iawn. Dangosant barch at ei gilydd ac at oedolion, ac maent yn cydweithio'n effeithiol o fewn y dosbarth. Mae'r parch hwn i'w weld hefyd allan ar yr iard chwarae, ac amser cinio.

Lefelau presenoldeb 2011 oedd 90.7%, sydd yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ac yn is na lefelau blaenorol yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgarwch i dyfu a choginio llysiau yng ngardd yr ysgol. Maent i gyd yn mwynhau gwersi coginio rheolaidd, lle rhoddir pwyslais ar fwydydd iach.

Yn ogystal â gwersi addysg gorfforol, maent yn cymryd rhan frwdfrydig yng ngweithgareddau'r clwb dawns, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus yn lleol.

Mae disgyblion yn elwa o'r cyswllt agos gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion, sydd yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a phersonol sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Trwy weithgareddau y cyngor ysgol, sydd hefyd â'r cyfrifoldeb am faterion eco a ysgol iach, caiff disgyblion o bob oed ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd ar gyfer y rhan fwyaf o'i disgyblion. Mae'r cynllunio yn fanwl a bwriadus ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'n bodloni gofynion cenedlaethol ac mae'n rhoi sylw i ddiddordebau'r disgyblion.

Hyd yma, nid yw'r ysgol wedi diwygio cynlluniau cyfnod allweddol 2 ar gyfer gofynion Cwricwlwm 2008 yn ddigonol. Nid oes cyfeiriad digon penodol yn y cynlluniau at wahaniaethu ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu cyfathrebu. Caiff y disgyblion gyfleoedd i ddatblygu darllen ar draws yr ysgol, gan gynnwys cyswllt effeithiol gyda'r llyfrgell leol a chynnal gweithdai gyda beirdd. Serch hynny, mae gor-ddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu'n sylweddol ar y cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddatblygu eu gallu i ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir sylw priodol i'r Cwricwlwm Cymreig, ac mae digwyddiadau megis yr eisteddfod ysgol a dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi yn fodd i hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg ymhlith y disgyblion a'u teuluoedd.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'n rhan o'r cynllun Eco-Sgolion ac mae deilliannau'r cynllun yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol. Mae gan y cyngor ysgol rôl glir ynglŷn ag ailgylchu ac arbed ynni. Er bod darpariaeth dda ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn y Cyfnod Sylfaen ac mewn meysydd fel daearyddiaeth ac addysg grefyddol, nid yw wedi ei datblygu'n ddigonol yng nghyfnod allweddol 2.

**Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae'r mwyafrif o'r addysgu yn gyffredinol dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu, er nad yw hyn i'w weld yn y mwyafrif o'r gwersi yng nghyfnod allweddol 2.

Lle mae'r addysgu'n dda neu'n well, mae gan yr athrawon a'r staff cymorth ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod y deilliannau dysgu yn glir ac mae'r ystod o arddulliau addysgu yn hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae'r gweithgareddau yn heriol a diddorol ac mae'r defnydd o adnoddau yn dda. Mae'r cynllunio bwriadus a chymorth oedolion wedi'i ffocysu'n dda ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion.

Lle mae'r addysgu'n ddigonol neu'n is, nid oes cyflymder addas i'r gwersi ac nid yw'r tasgau wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod gallu. Ychydig yn unig o'r cwestiynu sy'n dreiddgar ac agored ac nid yw'r technegau addysgu yn caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r defnydd o strategaethau i hybu medrau meddwl yn annigonol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain cynnydd yn y Cyfnod Sylfaen ond nid yw hyn yn weithredol yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio'u hasesiadau i gynllunio'n briodol ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y disgyblion. Maent yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu, megis gosod meini prawf llwyddiant, fel bod y disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i wella'u gwaith. Nid yw'r prosesau hyn wedi gwreiddio'n ddigonol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth adnabod carfannau o ddisgyblion i'w targedu ar gyfer datblygu medrau personol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen a chodi safonau darllen yng nghyfnod allweddol dau. Mae'r ysgol yn defnyddio portffolios yn effeithiol er mwyn hwyluso'r broses o bennu lefelau.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus ac mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn hybu byw'n iach yn effeithiol ac mae hi'n rhan o'r cynllun Ysgolion Iach. Darperir cyfleoedd rheolaidd ar draws yr ysgol i ddatblygu ffitrwydd ac agweddau cadarnhaol tuag at iechyd drwy amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae addysg rhyw ac addysg ar gamddefnyddio sylweddau wedi eu plethu i'r rhaglen addysgu ac yn cael effaith dda.

Mae'r ysgol yn hybu agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at eu hunain ac eraill, ac mae gwerthoedd megis tegwch a pharch yn cael eu hyrwyddo yn dda gan yr ysgol. Darpara'r ysgol gyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r cyngor ysgol yn weithredol ac yn dylanwadu'n briodol ar agweddau o fywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gydag asiantaethau arbenigol, a defnyddir ymweliadau gan y seicolegydd addysg, ymwelwyr iechyd, yr Heddlu a'r gwasanaeth tân i atgyfnerthu'r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff yr anghenion hyn eu hadnabod yn fuan a dilynir y camau priodol. Adolygir y cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd a chaiff rhieni rôl weithredol yn y broses. Mae cyswllt da rhwng cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol a chydlynydd yr ysgol uwchradd leol, ac mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol megis athrawon cefnogi a therapyddion lleferydd.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos gadarnhaol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol trwy themâu'r cwricwlwm, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol a lles.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau da iawn ar gyfer nifer y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol ohonynt. Mae'r ystafelloedd yn fawr ac yn lliwgar, gydag arddangosfeydd symbylus ar draws yr ysgol o waith y disgyblion. Ceir amrywiaeth da o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd da o'r llyfrgell gyfagos.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd pwrpasol ar gyfer chwarae a dysgu. Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff, yn sicrhau bod gan yr ysgol ethos hapus a chyfeillgar sy'n rhoi cyfle cyfartal i bob disgybl.

Cynhelir cyfarfodydd anffurfiol rhwng y pennaeth a'r dirprwy yn rheolaidd. Er hynny, nid yw'r cyfarfodydd wedi eu strwythuro ac nid ydynt yn ddigon strategol. Cynhelir cyfarfodydd staff ysgol gyfan yn eithaf rheolaidd ond, yn ôl y cofnodion, nid ydynt yn cyfeirio'n ddigonol at safonau a deilliannau disgyblion. O ganlyniad, prin yw'r wybodaeth sydd gan y staff am berfformiad ac anghenion yr ysgol.

Nid yw'r ysgol yn gyffredinol yn rhannu arfer dda. Dan arweiniad y dirprwy bennaeth, mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cydweithio'n effeithiol iawn ac mae trefn a strwythur pendant yn bodoli yma.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ei ddealltwriaeth o berfformiad yr ysgol yn datblygu'n raddol ond nid yw'r llywodraethwyr yn defnyddio'r wybodaeth berthnasol am berfformiad i weithredu'n strategol nac i herio'r ysgol. Nid yw'r adroddiad blynyddol i rieni gan gadeirydd y llywodraethwyr yn ateb y gofynion statudol.

Nid oes gan yr ysgol brosesau Rheoli Perfformiad ffurfiol yn eu lle. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol. Nid oes gan staff yr ysgol swydd ddisgrifiadau cyfredol ac felly nid ydynt yn sicr o'u cyfrifoldebau.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r sesiynau Dechrau Deg yn targedu disgyblion bregus ac mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith bositif ar ymddygiad a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun clir o berfformiad cyfredol yr ysgol. Nid yw'r ysgol wedi cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses o'i lunio ac felly nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau'r corff llywodraethol, staff yr ysgol, y plant a'r rhieni.

Nid yw'r pennaeth na'r rhai sydd â chyfrifoldeb am bynciau yn monitro ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol wybodaeth glir am safonau'r ysgol na'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Nid yw'r ysgol yn dadansoddi data perfformiad na chyraeddiadau disgyblion yn ddigon manwl fel y gall flaenoriaethu a gosod strategaethau i wella perfformiad disgyblion.

Nid oes cyswllt clir rhwng y ddogfen hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu'r ysgol yn rhy ben agored, ac nid ydynt yn ffocysu ar godi safonau a deilliannau disgyblion. Nid yw'r targedau yn fesuradwy. O ganlyniad, nid yw'n offeryn ar gyfer hybu gwelliant yn yr ysgol.

Nid yw llawlyfr yr ysgol yn ateb y gofynion statudol yn llawn.

Yn dilyn arolygiad yr ysgol yn 2006, nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb i bedwar o'r argymhellion.  Mae diffygion amlwg yn parhau yn ansawdd y brosesu hunanarfarnu, ac ym mharatoad a gweithredu'r cynllun datblygu ysgol.  Nid yw rôl y llywodraethwyr wedi ei ddatblygu, ac mae'r diffygion statudol yn y ddogfennaeth yn parhau.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol da gyda nifer o sefydliadau megis Dechrau Deg a Chlwb Tennis Wrecsam.  Defnyddir y bartneriaeth gref gyda'r gweithwyr cymdeithasol, yr Awdurdod Leol a'r ymwelwyr iechyd yn effeithiol iawn ac maent wedi arwain at welliant mewn cyswllt cartref, monitro presenoldeb a boddhad y disgyblion yn eu dysgu.

Cydweithir yn effeithiol â swyddogion yr Adran Gyllidol a'r swyddog cyswllt wrth drafod cyllideb, wrth gynllunio a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r bartneriaeth â'r llyfrgell leol wedi datblygu medrau ieithyddol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn dda drwy ymweliadau cyson.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol wrth drosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd.  Trefnir ymweliadau rheolaidd rhwng y ddwy ysgol ac mae hyn yn cael effaith bositif ar y broses drosglwyddo.  Mae'r ysgol hefyd wedi llwyddo i greu partneriaeth dda yn y broses gymedroli.  Mae cydweithio gydag ysgolion y clwstwr wedi rhoi cyfle i'r ysgol rannu arfer dda.

Nid yw'r cyfathrebu sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni wedi datblygu'n ddigonol.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff addysgu.  Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni eu rolau yn effeithiol iawn ac yn hybu cymhelliant yr holl ddisgyblion.  Fodd bynnag, nid oes digon o gyd-drafod rhwng yr athrawon yng nghyfnod allweddol 2, ac mae disgwyliadau yn anghyson.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau a gwneir defnydd effeithiol iawn ohonynt i hyrwyddo'r dysgu.

Nid yw gwariant yr ysgol yn cysylltu'n benodol â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn eu defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

### Data perfformiad yr ysgol

Mae angen bod yn ofalus wrth ymateb i ddata perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Oherwydd bod y carfannau o ddisgyblion yn fach, anodd iawn yw dod i farn ystyrlon yn seiliedig ar y canlyniadau. Amrywiodd nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol rhwng dau a phump – sef rhwng 20% a 50% o'r garfan.

Yng nghyfnod allweddol 1, llwyddodd 100% o'r disgyblion i gyrraedd lefel 2 neu uwch yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd hyn yn gosod yr ysgol ar frig y teulu, ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim. Yn 2011, roedd cyflawniad y disgyblion ar lefel 2 neu uwch yn 80% yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg a mathemateg ac yn 100% mewn gwyddoniaeth. Golyga hyn fod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn gwyddoniaeth, ac yn y 50% isaf mewn Cymraeg a mathemateg.

Yn 2009 a 2010, ni chyrhaeddodd yr un disgybl y lefelau uwch (lefel 3 neu uwch) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2010, dengys y canlyniadau asesu bod 20% wedi cyrraedd lefel 3 neu uwch yn Gymraeg, 40% mewn mathemateg a 60% mewn gwyddoniaeth. Roedd hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn is mewn Cymraeg.

Yn nghyfnod allweddol 2, yn 2008, 2010 a 2011 llwyddodd pob disgybl i gyrraedd lefel 4 neu uwch ym mhob un o'r pynciau craidd. Golyga hyn fod yr ysgol ar frig y teulu, ac yn y 25% uchaf o'i chymharu gydag ysgolion tebyg ar sail y nifer sydd â'r hawl i ginio am ddim. Nid oedd disgyblion blwyddyn chwech yn yr ysgol yn 2009.

Yn 2008, roedd 50% o ddisgyblion wedi sicrhau cyrhaeddiad o lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg a mathemateg, a 75% mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Ni chyrhaeddodd yr un disgybl y lefel hon yn 2010, ond yn 2011 yr oedd 50% wedi sicrhau'r cyrhaeddiad ar lefel 5 neu uwch. Roedd hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr

Fe ymatebodd 12 o ddisgyblion i’r holiadur, ac fe gafwyd ymateb cadarnhaol i bob cwestiwn. Teimla’r disgyblion i gyd yn ddiogel yn yr ysgol, ac maent yn dweud bod yr ysgol yn delio’n dda gydag unrhyw fwlio. Maent i gyd yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu’n ofidus, ac yn dweud bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach ac yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent i gyd yn gwybod at bwy i droi os yw’r gwaith yn anodd, ac yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith ysgol. Mae digon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron ar gael yn ôl pob disgybl, ac mae‘r plant eraill yn ymddwyn yn dda ar bob adeg, a ddim yn amharu ar waith eu cyd-ddisgyblion.

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd 26 o holiaduron yn ôl oddi wrth rieni. Dywed pob rhiant bod yr addysgu’n dda yn yr ysgol, a bod staff yn disgwyl i’w plant weithio’n galed a gwneud eu gorau. Dywedant i gyd bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu’n dda wrth ddechrau’r ysgol a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddatblygu’n aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Maent hefyd yn dweud bod yr ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Yr oedd y rhan fwyaf o rieni’n fodlon â’r ysgol yn gyffredinol, ac yn dweud bod eu plant yn hoffi’r ysgol, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd da yno. Dywed y rhan fwyaf bod gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent yn dweud bod eu plant yn cael eu hannog i gadw’n iach ac i wneud ymarfer corff a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf bod amrywiaeth dda o weithgareddau’n cael eu trefnu gan yr ysgol.

Mae llawer o rieni’n dweud bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg, a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed lleiafrif o rieni nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, ac nad ydynt yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu wneud awgrymiadau i’r ysgol. Mae lleiafrif hefyd yn ansicr ynglŷn a threfn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Garem Jackson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lyn Edwards | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |